

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar Nos Lun 9fed Ionawr 2023
am 7.30 y.h. yn Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn.
Minutes of Trawsgoed Community Council held on Monday 9th January 2023 at 7.30 p.m.
held at Llanfihangel-y-Creuddyn School

Presennol/Present: Cyng./Cllr. A. Evans (Cadeirydd/Chair)
Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. M. Davies,
Cyng./Cllr. E. Lewis, Cyng./Cllr. I. Leyshon, Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan.
Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies (bresennol ar ddiwedd y cyfarfod/present
at end of meeting)

Ymddiheuriadau / Apologies: Cyng./Cllr. Sh. Edwards,

- | | |
|--|--|
| <p>216. Materion Personol
Dymunwyd longyfarchiadau i'r Cyng.
Milwyn Davies ar enedigaeth Wyr bach.</p> | <p>Personal Matters
Congratulations was expressed to Cllr
Milwyn Davies on the birth of a grandson.</p> |
| <p>217. Datgelu Buddiannau Personol
Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb
wrth drafod eitemau.</p> | <p>Disclosure of Personal Interest
Members were reminded to declare an
interest when discussing items.</p> |
| <p>218. Asesiad Risg ac Asedau
Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau.</p> | <p>Risk and Asset Assessment
There were no matters arising regarding
Assets.</p> |
| <p>219. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf
220. Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion yr
5ed Rhagfyr 2022 Cynigiwyd cywirdeb gan
Cyng. P. Davies ac eiliwyd gan Cyng. C.
Lloyd-Morgan.</p> | <p>Minutes of the Last Meeting
The minutes of the 5th December 2022
were confirmed and accepted, proposed
by Cllr. P. Davies and seconded by Cllr. C.
Lloyd-Morgan;</p> |
| <p>221. Nifer o ddraeniau dwr wedi gorlenwi ac
angen sylw gan Gyngor Sir Ceredigion,
enwedig ar y rhiwiau wrth fynd allan o
Lanfihangel-y-Creuddyn, y ffordd tuag at yr
A4120 a'r ffordd heibio'r Ysgol.</p> | <p>Number of drains overflowing that need
attention from Ceredigion County Council,
especially on the hills around Llanfihangel-
y-Creuddyn – road passing the school and
the road towards the A4120.</p> |
| <p>222. Materion Cyllidol</p> | <p>Finance</p> |
| <p>223. Ceisiadau Cynllunio:
224. A220883 - Plots at New Cross,
Aberystwyth, SY23 4LY Retention of an
existing building for holiday let use.</p> | <p>Planning Applications
A220883 - Plots at New Cross,
Aberystwyth, SY23 4LY Retention of an
existing building for holiday let use.</p> |
| <p>Ymateb Cyngor Bro Trawsgoed ar y cais
cynllunio:
Mae'r cais yn cyfeirio at retention of an
existing building for holiday let use, roedd y
Cynghorwyr Bro yn ymwybodol nad
oeddent yn medru cyfeirio at gynlluniau
gwreiddiol a natur caniatad cynllunio</p> | <p>Trawsgoed Community Council comments
on the planning application:
The application refers to retention of an
existing building for holiday let use,
Community Councillors were mindful they
weren't sighted of the original plans of the
nature of the consent of a building on this</p> |

adeilad ar y rhan yma o dir ac a dderbyniwyd caniatâd cynllunio ar gyfer garej? Gofynnir i Swyddogion edrych ar y cais cynllunio gwreiddiol a'r caniatâd a roddwyd.

Mae'r adeilad dan sylw, a adeiladwyd yn ystod y misoedd diwethaf, yn ymddangos yn uchel ar gyfer garej arfaethedig ac yn ymestyn dros ac yn agos i wrych ar ochr brif ffordd brysur. Gofidiwyd bod yr adeilad wedi adeiladu'n bwrpasol ar gyfer llety byw/ymwelwyr ac o bosibl gyda'r bwriad i gyflwyno gais cynllunio ôl-weithredol, os felly ni all y Cyngor Bro gymeradwyo cais ôl-weithredol fel hyn.

Mae'r Cyngor Bro yn poeni am sefyllfa parcio ar y safle. Os bwriadwyd y darn tir ar gyfer garej neu gyfleusterau parcio ar gyfer y ddau dŷ cyfagos newydd sydd wedi'u hadeiladu'n ddiweddar, mae tynnu'r ddarpariaeth hon yn lleihau'r llefydd parcio ar gyfer y tai hynny. Nid yn unig y mae'n lleihau'r ddarpariaeth parcio ond byddai llety byw'n cynyddu'r gofynion parcio yn yr ardal lle mae llefydd eisoes yn gyfyngedig. Mae'r datblygiad yn ffinio â chyffordd a chroesffordd brysur a leolir ar ran cyflym o'r B4340 lle y byddai cerbydau o bosibl yn parcio ger y gyffordd neu ar ochr ffordd y B4340 a fyddai'n gosod peryglon ychwanegol i ddefnyddwyr y ffordd.

Nid oes unrhyw fanylion penodol ynglŷn â draenio dŵr a charthffosiaeth ar gyfer yr adeilad, byddai angen y wybodaeth berthnasol hyn cyn y gellir gwneud sylwadau i sicrhau na fyddai llifogydd na phroblemau arogleuon yn deillio o'r datblygiad hwn.

225. **Gohebiaeth**
Ymgynghoriad Defnydd o Swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol: Trafodwyd yr Ymgynghoriad wrth Gyngor Sir Ceredigion a'r Clerc i ymateb ar ran y Cyngor Bro

226. **Polisiau**

227. Rheolau Sefydlog (trosglwyddwyd i'r cyfarfod nesaf)

228. Rheoliadau ariannol

area of land and if there was planning consent for a garage. Councillors would ask Officers to look at the original planning application and consent.

The building in question, built in recent months, does seem rather high in construction to be an intended garage and prominently overhangs the roadside hedge of a busy main road and potentially been purpose build for accommodation with an application for retrospective planning which the Community Council can't condone.

The Community Council is concerned regarding the parking situation on site. If the site was intended as a garage or parking facilities for the two new built adjoining houses, taking away this provision reduces the parking spaces for those houses. Not only does it reduce parking provision but a holiday let would increase the parking requirements in the area where spaces are already limited. The development is adjoining a busy junction and crossroads and on a fast section of the B4340 where potentially vehicles would park near the junction or on the B4340 roadside which would impose additional hazards to road users.

There is no specific details of drainage of water and sewerage for the building and Community Councillors would need relevant information before they could comment to ensure that there would be no flooding or odour problems emanating from this development.

Correspondence

Consultation Future Use of Council Offices: The Consultation received from Ceredigion County Council was discussed with the Clerk to respond on behalf of the Community Council.

Policies

Standing Orders (deferred to next meeting)

Financial Regulations

- | | | |
|------|---|--|
| 229. | Polisi Pryderon a Chwynion
Gweithdrefn Gwyno | Concerns and Complaints Policy
Grievance Procedure |
| 230. | Polisi Cyfryngau Cymdeithasol | Social Media Policy |
| 231. | Dosbarthwyd y polisiïau ymlaen llaw a'u derbyniwyd gyda mân addasiadau fel dogfennau gweithredol Cyngor Bro Trawsgoed
I'w hadolygu bob 2 flynedd, nesaf yn y cyfarfod blynyddol 2025. | The Policies were distributed prior to the meeting and were accepted as working documents for Trawsgoed Community Council.
To be reviewed every 2 years, next at the AGM 2025. |
| 232. | Unrhyw Fater Arall | Any Other Business |
| 233. | Cwlfet wedi gorlenwi ger Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn. | Blocked culvert near Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn. |
| 234. | Cyflwr y ffordd ym Mrynafan angen sylw brys. Ochr y ffordd wedi suddo a craciau mawr gweledol yn y tarmac mewn sawl lleoliad ar hyd y ffordd. | The condition of the road at Brynafan needs urgent attention. The roadside has sunk and there are large visible cracks in the tarmacadam in numerous locations along the road. |
| 235. | Ochr y Ffordd yn rhoi ger y gyffordd yng nghanol Cnwch Coch. | Roadside sinking near the junction in the centre of Cnwch Coch. |
| 236. | Arwynebedd y ffordd wedi codi ger Neuadd Llanafan. | Tarmacadam raised by the Hall in Llanafan. |
| 237. | Drain ddwr a Cwlfet wedi blocio ger Abertrinant Llanfihangel-y-Creuddyn ac ar y ffordd heibio'r Ysgol. | Blocked water drain and blocked culvert by Abertrinant, Llanfihangel-y-Creuddyn and also on the road passing the school in Llanfihangel-y-Creuddyn. |
| 238. | Twill yn y ffordd rhwng Brenan a Penffordd. | Pothole between Brennan and Penffordd. |
| 239. | Cofnodir cyfraniad Cwmni Adeiladwyr, Barcud Coch Cyf a oedd wedi rhoddi darn o harbwrdd a oedd dros ben wedi gwaith adeiladu mewn tŷ ym Mrynafan ar gyfer adnewyddu hysbysfwrdd Brynafan. Cofnodir hefyd werthfawrogiad i berchennog y tŷ am gyflawni'r gwaith o adnewyddu'r hysbysfwrdd. | Acknowledgement was minuted of the donation of a local Building firm, Barcud Coch Ltd of a piece of left over hardboard following Building work at a property at Brynafan for refurbishment of the Brynafan Noticeboard. Acknowledgement was also minuted to the property owner who had undertaken the work of installing the hardboard. |
| 240. | DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF Nos Lun 20fed Chwefror, 2023 am 7.30y.h. yn Neuadd Lisburne, Llanafan. | DATE OF NEXT MEETING
Monday 20 th February, 2023 at 7.30p.m. at Lisburne Hall, Llanafan. |